

### 1) Pwrpas

Cefnogi darpariaeth y Cyngor o Tŷ Pawb fel cyrchfan celfyddydau, diwylliant a marchnadoedd sy'n arwyddocaol yn lleol a rhanbarthol; sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol, lles, sgiliau, cyflogaeth a ffyniant economaidd yng nghymuned Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

### 2) Nodau a chyfrifoldebau

- i. Gwneud argymhellion i gefnogi adnabod blaenoriaethau a datblygiad y strategaeth i'r dyfodol ar gyfer Tŷ Pawb.
- ii. Darparu cyngor arbenigol / technegol i wneud y gorau o lwyddiant gweithredol y man celfyddydol, marchnad, eiddo busnes a maes parcio i gyflawni cynllun busnes Tŷ Pawb.
- iii. Adolygu a rhoi sylwadau ar y gyllideb a'i reolaeth yn ystod y flwyddyn.
- iv. Cyfrannu at adolygiadau ansoddol a meintiol o'r perfformiad a chynnydd.
- v. Monitro cyfathrebu a chydweithio ar draws gwahanol elfennau gweithredol Tŷ Pawb.
- vi. Cynorthwyo gyda datblygiad gwasanaethau sy'n bodloni anghenion lleol ac yn cyfrannu at y cynnig diwylliannol, economaidd a chymdeithasol gan Tŷ Pawb.
- vii. Darparu modd o ymgynghori a gwrandao ar grŵp eang o fudd-ddeiliaid i gefnogi cynllunio gwasanaeth a cheisiadau am gyllid.
- viii. Cynorthwyo i wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio a gwaith partneriaeth.
- ix. Cynorthwyo'r Tîm Rheoli i annog cyfranogiad pobl leol yn narpariaeth a datblygiad parhaus Tŷ Pawb.
- x. Gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i ganfod a datblygu model llywodraethu allanol priodol, yn ôl yr angen, ar gyfer rheoli Tŷ Pawb.

### 3) Aelodaeth

- 3.1 Bydd aelodaeth sefydlog y Bwrdd Ymgynghorol fel arfer yn cynnwys dim mwy na 12, gan gynnwys:
- a) 8 Aelod Llawn – bydd Aelodau Llawn yn gynrychiolwyr o'r gymuned ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam a/neu gymunedau o ddiddordeb gyda'r sgiliau a'r profiad priodol i gefnogi swyddogaethau allweddol y Bwrdd Ymgynghorol.

O'r 8 Aelod Llawn ar y Bwrdd Ymgynghorol, ni fydd mwy na 2 gynrychiolydd o bob un o'r sectorau a ganlyn:

- Y Celfyddydau a Diwylliant
- Busnes
- Cymunedol
- Gwirfoddol

#### b) 4 Aelod Ex Officio

- i. Rheolwr Gweithrediadau Tŷ Pawb
- ii. Cyfarwyddwr Creadigol Tŷ Pawb
- iii. Arweinydd y Celfyddydau, Digwyddiadau a Diwylliant Canol y Dinas
- iv. Aelod Arweiniol a enwebwyd gan y Cyngor

- 3.2 Gall y Bwrdd Ymgynghorol ofyn am gyfethol Aelodau eraill fel bo angen i fodloni pwrpas penodol.
- 3.3 Cworwm fydd 5 Aelod Llawn o'r Bwrdd Ymgynghorol.
- 3.4 Mae angen bod yn bresennol ym mhob cyfarfod. Os nad yw Aelod Llawn yn gallu bod yn bresennol, dylid anfon ymddiheuriadau at y Cadeirydd.
- 3.5 Gall y Bwrdd Ymgynghorol ddileu sedd unrhyw swyddog neu Aelod nad yw'n mynychu 3 cyfarfod yn olynol heb ganiatâd. Gall y Bwrdd Ymgynghorol ddileu sedd unrhyw Aelod sy'n amharu yn barhaus ar fusnes y Bwrdd Ymgynghorol neu y canfuwyd, ar ôl archwiliad priodol a hawl i ymateb, ei fod wedi mynd yn groes i'r safonau aelodaeth gofynnol.

#### **4) Rolau Aelodau**

- 4.1 O fewn 1 mis i'r cyfarfod cyntaf, bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o'u plith, a fydd yn gwasanaethu am 12 mis.
- 4.2 Yn flynyddol ar ôl y cyfarfod cyntaf, bydd 1/3 o Aelodau Llawn y Bwrdd Ymgynghorol yn ymddeol, heb niweidio eu hawliau i gael eu hailethol. Penderfynir ar bwy fydd yn ymddeol trwy fformwla addas yn y dechrau, lle bydd 1/3 o'r aelodau yn cael eu penodi am 12 mis, 1/3 am 2 flynedd a 1/3 am 3 blynedd i sicrhau y gall y cylchoedd hyn weithredu.
- 4.3 Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Bwrdd Ymgynghorol nes y bydd y Bwrdd Ymgynghorol wedi gwneud trefniadau ar gyfer y swyddogaeth hon. Dylid gwneud ceisiadau i roi eitemau ar y rhaglen yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd o leiaf 10 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y rhaglen a phob adroddiad i'w ystyried yn cael eu dosbarthu 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd holl gofnodion y cyfarfod yn cael eu dosbarthu o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod hwn.
- 4.4 Bydd angen i Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol ddangos bod ganddynt y sgiliau proffesiynol priodol a phrofiad sydd ei angen i fod â swyddogaeth ymgynghorol. Bydd angen ymgynghorwyr ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol:
  - Datblygu Rhaglen Gelfyddydol
  - Rheoli Gweithredol (Cyfleusterau)
  - Cynllunio Busnes, Codi Arian a Rheoli Ariannol
  - Marchnata a Chyfathrebu
  - Arweinyddiaeth a Strategaeth
  - Ymgysylltiad â Budd-ddeiliaid a Chydraddoldeb
  - Llywodraethu a Chyfreithiol
- 4.5 Bydd swydd-ddisgrifiad yn nodi'r meini prawf allweddol a ddefnyddir fel rhan o'r broses ddethol, a fydd yn cael ei oruchwylio gan banel dan arweiniad Swyddog Dynodedig y Cyngor ac yn cynnwys Aelod Arweiniol perthnasol, cynrychiolwyr o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- 4.6 Bydd Darpar Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol yn cael gwahoddiad i gyflwyno mynegiannau o ddiddordeb i gefnogi'r meini prawf a nodwyd yn eu swydd-ddisgrifiadau. Bydd y panel yn

llunio rhestr fer o'r cyflwyniadau ysgrifenedig ac yn cynnal cyfweiliadau cyn cadarnhau'r dewisiadau terfynol.

4.7 Bydd y Cyngor yn cydnabod y Bwrdd Ymgynghorol fel ymgynghoreion ffurfiol ar:

- Gynigion am newidiadau sylfaenol mewn cynllun busnes, strategaeth neu gyfeiriad
- Cynigion ar gyfer newidiadau i gyfraddau llogi/codi tâl ar draws y cyfleuster
- Recriwtio staff newydd i'r dyfodol
- Oriau agor

4.8 Hefyd, os bydd argyfwng, digwyddiad neu fusnes brys sydd â'r potensial i amharu ar wasanaeth arferol Tŷ Pawb, ymgynghorir â Chadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol.

## **5) Rhoi gwybod / atebolrwydd**

5.1 I ddechrau, ni fydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cael ei sefydlu gyda statws cyfreithiol ac felly ni all ymrwmo i gontractau, bod â chyllideb na bod yn atebol yn gyfreithiol. Bydd pob cyfrifoldeb yn ymwneud â Thŷ Pawb yn gyfrifoldeb ar y Cyngor. Fel gydag adran 2.x. gall y Bwrdd Ymgynghorol ddatblygu ei gamau llywodraethu priodol ei hun i greu NPDO sy'n gallu sicrhau a chadw cyllid a darparu model rheoli allanol ar gyfer Tŷ Pawb.

5.2 Nid yw'r Bwrdd Ymgynghorol yn un o bwyllgorau'r Cyngor.

5.3 Bydd yr Aelod Arweiniol a'r Swyddog Dynodedig yn sicrhau bod y Bwrdd Ymgynghorol yn cael y wybodaeth y mae ei angen i gyflawni ei swyddogaethau.

5.4 Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn gwneud argymhellion i ategu agwedd y Cyngor at faterion sy'n effeithio Tŷ Pawb trwy'r broses Graffu (ar gais) ac i'r Aelod Arweiniol perthnasol sy'n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau i'r Byrddau Gweithredol. Nid oes rhaid i'r Cyngor dderbyn argymhellion gan y Bwrdd Ymgynghorol ac mewn achlysuron o'r fath, bydd yr Aelod Arweiniol yn gyfrifol am roi gwybod i'r Bwrdd Ymgynghorol i esbonio swyddogaeth y Bwrdd Gweithredol.

5.5 Bydd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu nodi a'u cadw yn unol â Pholisi Cadw Corfforaethol y Cyngor, ynghyd ag unrhyw adroddiadau penodol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Ymgynghorol.

5.6 Bydd gan Aelodau Llawn y Bwrdd Ymgynghorol hawl i bleidleisio. Cytunir ar fusnes y Bwrdd Ymgynghorol trwy fwyafrif ac mewn sefyllfaoedd lle na ellir dod i gytundeb gan fwyafrif, y Cadeirydd fydd yn penderfynu.

5.7 Gall y Bwrdd Ymgynghorol wahodd pobl nad ydynt yn Aelodau i fynychu a chyfrannu at eitemau rhaglen penodol yn ôl yr angen.

5.8 Ni fydd Aelodau yn gymwys i gael ad-daliad mewn amser na threuliau am ddod i gyfarfodydd arferol y Bwrdd Ymgynghorol. Mewn achosion lle bydd yn briodol i Aelod fynychu digwyddiad y tu allan i'r fwrdeistref sirol ac ar ran y Bwrdd Ymgynghorol / Tŷ Pawb, bydd costau rhesymol yn cael eu talu gan y Cyngor.

## **6) Amllder y Cyfarfodydd:**

6.1 Gall y Bwrdd Ymgynghorol gyfarfod i drafod busnes yn fisol ac mor aml ag sydd angen, ond bydd o leiaf 6 cyfarfod bob blwyddyn. Bydd dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu hamseru i gyd-fynd â threfniadau rhoi gwybod y Cyngor i'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol.

## **7) Eglurder a Safonau**

7.1 Bydd aelodaeth y Bwrdd Ymgynghorol yn cadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) ac yn eu hyrwyddo.

- Anhunanoldeb
- Uniondeb
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Bod yn agored
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

7.2 Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol ddatgan cysylltiad yn unrhyw eitem sy'n cael ei ystyried os oes ganddynt gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu. Yn yr amgylchiadau hyn ac yn dibynnu ar y math o gysylltiad, gall fod angen iddynt adael y cyfarfod. Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cadw at God Ymddygiad y Cyngor.

7.3 Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn ystyried deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i: Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 1998, y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## **8) Diagram o'r sefydliad**

**Y Bwrdd Gweithredol**

**Pwyllgor Craffu**

**Bwrdd Ymgynghorol**

**Aelod Arweiniol**

**Tîm Rheoli**

**Grŵp Budd-ddeiliaid allanol**

**Y Sector Celfyddydau a Threftadaeth**

**Y Sector Masnachu a Busnes**

**Cwsmeriaid a'r Gymuned Ehangach**